OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 581 (Cy. 53)

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyru Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2007

Wedi'u gwneud - -	*27 Chwefror 2007*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 116(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) a pharagraff 9 o Atodlen 1 iddi ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**):

Enwi, cychwyn, a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyru Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2007 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Taliadau wythnosol i weithwyr gofal

2. Ym mharagraff 1(c) o'r Atodlen i Reoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyru Disgownt) 1992(**3**) yn lle "£36"(**4**) rhodder "£44".

(**1**) 1992 p.14.
(**2**) Trosglwyddodd y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 116(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 , a pharagraff 9 o Atodlen 1 iddi o ran Cymru oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan erthygl 2(a) o, ac Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1992/552.
(**4**) Wedi'i fewnosod gan O.S.1998/294.